



Brif Grantiau Gwirfoddoli Cymru

2022/25 Canllaw llenwi cais am grant

Nod y canllaw hwn yw helpu ymgeiswyr i ddeall mwy am Brif Grantiau Gwirfoddoli Cymru, gan gynnwys amcanion a blaenoriaethau'r grant, pwy sy'n gallu gwneud cais am gyllid a'r hyn sydd ei angen gan ymgeiswyr.

Bydd canllaw penodol sy'n ymwneud â chwestiynau unigol y cais wedi'i gynnwys o fewn y ffurflen gais MAP.

Dyddiad cau: 13 Ionawr 2023

CYNNWYS

CYFLWYNIAD I BRIF GRANT GWIRFODDOLI CYMRU	3
AMCANION Y GRANT	4
BLAENORIAETHAU GRANT.....	4
A YW EICH MUDIAD YN GYMWYS I YMGEISIO?.....	5
CYLLID	6
Y BROSES YMGEISIO	7
BETH YW'R MEINI PRAWF ASESU AR GYFER PROSIECTAU?.....	8
PA DDOGFENNAU SYDD ANGEN I MI EU DARPARU?.....	8
COFRESTRU GYDA MAP	10
TALU GRANTIAU	10
DYDDIADAU PWYSIG	11
ADNODDAU DEFNYDDIOL	11

CYFLWYNIAD I BRIF GRANT GWIRFODDOLI CYMRU

Mae Gwirfoddoli Cymru yn ymwneud â'r '...math o wlad rydyn ni am fod'.

Gwirfoddolwr yw rhywun sy'n ymrwymo amser ac egni er budd y gymdeithas a'r gymuned, a gall wirfoddoli fod ar sawl ffurf. Caiff ei wneud gan rywun o'i wirfodd a'i ddewis ei hun heb feddwl am elw ariannol. Nod Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru yw; (i) Ceisio gwella'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael i bobl o bob oed ac o bob rhan o gymdeithas; (ii) Helpu gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn fwy effeithiol, gan gynnwys cymorth drwy hyfforddiant priodol; a, (iii) Codi statws gwirfoddoli a gwella ei ddelwedd ([Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru: Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau, 2015](#)).

Cenhadaeth Llywodraeth Cymru yw cyflwyno ffyniant i bawb. Ei nod hirdymor yw creu Cymru ffyniannus a diogel, iach ac egniol, sy'n uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sy'n unedig a chysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i nodi **cyfleoedd i fwy o bobl wirfoddoli**, ac mae'n cydnabod fod gan y cymunedau cryfaf bobl sy'n awyddus i gamu ymlaen i gyflawni pethau. Unigolion yw'r rhain nad ydynt yn gofyn am unrhyw wobr fel arfer, heblaw gweld eu cymuned yn ffynnu ([Ffyniant i bawb – y strategaeth genedlaethol, 2017](#)).

Nod [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) yw gwella'r ffordd y mae Cymru'n cyflawni llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Drwy fudiadau cyllido a fydd yn cynorthwyo ac yn hyfforddi unigolion mewn cyfleoedd gwirfoddoli o ansawdd, bydd cynllun Gwirfoddoli Cymru'n cyfrannu at y saith nod. Mae gwirfoddoli'n cael effaith gadarnhaol hirdymor ar unwaith ar yr unigolyn a'r gymuned. Mae gwirfoddolwyr cenedlaethol yn hanfodol i gyflawni cenadaethau a gwerthoedd grwpiau'r trydydd sector.

Mae **Prif Grant Gwirfoddoli Cymru** yn gynllun a gyllidir gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a gwella gwirfoddoli yng Nghymru. Gweinyddir y cynllun gan (CGGC) Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Bydd cronfa Prif Grant Gwirfoddoli Cymru ar gyfer 2022/25 yn lansio ar 03 Medi 2022.

AMCANION Y GRANT

Amcanion y cynllun yw :

- Cynyddu nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan a'u cadw drwy chwalu'r rhwystrau i wirfoddoli i bobl o bob oed ac o bob rhan o'r gymdeithas.
- Cefnogi cyfleoedd gwirfoddoli cadarnhaol o ansawdd uchel sy'n ceisio recriwtio, cynorthwyo a hyfforddi gwirfoddolwyr.
- Hyrwyddo newidiadau yn y mudiadau a fydd yn cael budd er mwyn gwneud gwirfoddoli'n rhan o'u diwylliant, ee ennill achrediad [Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr](#).

BLAENORIAETHAU GRANT

Dangos y cyfraniad y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud at saith nod [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(2015\)](#) ac i alluogi mudiadau i wneud cynnydd tuag at ['Ffyrdd o Weithio' Llywodraeth Cymru](#).

- 1) **Cymru lewyrchus**
- 2) **Cymru Gydnerth**
- 3) **Cymru sy'n fwy cyfartal**
- 4) **Cymru iachach**
- 5) **Cymru o gymunedau cydlynus**
- 6) **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
- 7) **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

A YW EICH MUDIAD YN GYMWYS I YMGEISIO?

Gall eich mudiad wneud cais:

- os yw'n fudiad nid-er-elw ac yn annibynnol o'r llywodraeth a'r sectorau preifat
- os bydd y prosiect/gweithgaredd a gynigir yn cael ei gynnal yng Nghymru (nid yw cyflogaeth y tu allan i Gymru'n cael ei chefnogi o dan y cynllun grant hwn)
- os yw'n fudiad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ar hyn o bryd er budd y gymuned, os oes ganddo bolisi gwirfoddolwyr ategol NEU os yw'n fudiad sydd wedi datblygu polisi gwirfoddoli ac yn credu y bydd cynnwys gwirfoddolwyr o fudd i'r gymuned
- os yw'r prosiect a gynigir yn recriwtio gwirfoddolwyr newydd ac yn gallu defnyddio system i fonitro ac olrhain cyfraniad a chynnydd gwirfoddolwyr (gall Platfform [Gwirfoddoli Cymru](#) helpu)
- os bydd y prosiect a gynigir yn cyfrannu at un neu ragor o bum blaenoriaeth y cynllun
- os yw'n barod ac yn abl i gymryd rhan mewn gwerthusiad annibynnol o effaith y grantiau
- rhaid i'r prosiect gael ei gyflenwi rhwng **01 Ebrill 2023 a gorffen ar 31 Mawrth 2025 fan bellaf (bydd hyn yn ddibynnol ar adolygiad llwyddiannus ym mlwyddyn un). Ni fydd unrhyw brosiect yn cael cyllid am fwy na 2 mlynedd.** Ni fydd prosiectau sy'n dechrau a/neu'n gorffen ar unrhyw ddyddiadau eraill yn gymwys i gael cyllid
- **Yn meddu ar bolisi Diogelu sy'n addas i'r pwrpas** – ni fydd cais a gyflwynir gyda gwelliannau mawr sydd eu hangen i'w polisi diogelu yn cael ei gyfeirio at y panel.

Ni all eich mudiad wneud cais os ydych yn:

- Fudiad gwleidyddol
- Mudiad statudol
- Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC) neu'n Ganolfan Gwirfoddolwyr
- Mudiad yn y sector preifat

Noder mai dim ond un cais y gellir ei wneud gan yr un mudiad mewn unrhyw gylch grant.

Yn benodol, rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan fudiadau a arweinir gan neu sy'n gweithio er budd pobl â nodweddion gwarchoddedig. Os yw cylch grant yn gystadleuol, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r ceisiadau hyn. Bydd angen i geisiadau ddangos effaith ystyrlon a diriaethol ar y cymunedau â budd a ddewiswyd yn y cais.

CYLLID

Gall mudiadau wneud cais am ddyfarniadau o hyd at ddwy flynedd gan ofyn am uchafswm o £25,000 bob blwyddyn. Fodd bynnag, gallwn ni ystyried ceisiadau uwch, ond bydd angen i chi gysylltu â ni'n gyntaf yn volwalesgrants@wcva.cymru i drafod.

Ar ôl blwyddyn un, bydd adolygiad yn cael ei gynnal o berfformiad y prosiect. Bydd llwyddiant yr adolygiad hwn, a gynhelir gan dîm grantiau CGGC ac yn y pen draw, Bwrdd Prosiect Grant Gwirfoddoli Cymru, ag argaeledd cyllid yn pennu a fydd taliad blwyddyn dau yn cael ei ryddhau.

Mae'r gronfa hon yn canolbwyntio'n bennaf ar gyllid refeniw; ond gall eich cais am gyllid gynnwys costau ar gyfer prynu cyfarpar 'cyfalaf' llai, gan gynnwys deunyddiau traul (er enghraifft, cyfarpar diogelu personol, cyfarpar TG ac ati).

Y BROSES YMGEISIO

Mae'r broses ymgeisio wedi'i rhannu'n ddau gam ar gyfer ymgeiswyr.

Cam 1: Cais

Yn rhan gyntaf y cais, byddwch chi'n darparu manylion eich mudiad, gan gynnwys polisiau, cyfrifon diweddar a manylion cyswllt.

Yng ngweddill y cais, bydd y prosiect yn cael ei ddisgrifio'n fanwl. Bydd hefyd angen i chi ddangos sut bydd y prosiect yn gweithio tuag at o leiaf tri o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Unwaith y bydd y cais yn cael ei gyflwyno, bydd y Tîm Grantiau'n asesu'r atebion yn erbyn y meini prawf sgorio. Yn ystod y cam hwn, ni fydd cyfle i ddiwygio'r atebion a ddarparwyd ac ni fydd adborth yn cael ei roi hyd nes y bydd y llythyrau dyfarnu wedi'u dosbarthu. Bydd y ceisiadau'n cael eu sgorio ar sail pob cwestiwn a'r canllaw i bob cwestiwn yn unig.

Bydd sampl o'r ceisiadau'n cael eu gwirio am ansawdd cyn y bydd yr argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Gwirfoddoli Cymru.

Cam 2: Bwrdd Gwirfoddoli Cymru*

Bydd yr holl geisiadau sy'n pasio'r sgôr isafswm ar gyfer y cwestiynau yn cael eu hatgyfeirio i Fwrdd Gwirfoddoli Cymru. Bydd y Bwrdd yn penderfynu pa geisiadau i'w hariannu. Gall hefyd wneud argymhellion am gyllid rhannol pan fo'n briodol/yn unol â'r cyllid sydd ar gael.

Unwaith y bydd y Cadeirydd wedi cymeradwyo'r penderfyniad terfynol, bydd llythyrau canlyniad yn cael eu hanfon at bob ymgeisydd.

Bydd 2 tranche o ddyfarniadau'n cael eu gwneud: ar ddechrau blwyddyn 1 a dechrau blwyddyn 2.

***Bwrdd Prosiect Gwirfoddoli Cymru** sy'n darparu'r cyfeiriad strategol a'r trosolwg o'r cynllun grant. Mae'n cefnogi'r gwaith o arfarnu a dyfarnu grantiau ac yn adolygu perfformiad prosiectau. Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau o Fwrdd CGGC ac aelodau a bennwyd o'r gymuned gwirfoddoli yng Nghymru.

BETH YW'R MEINI PRAWF ASESU AR GYFER PROSIECTAU?

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol: -

- a) Disgrifiad eglur a phriodol o'r prosiect
- b) Y gallu i arddangos yr angen
- c) Ansawdd y profiad gwirfoddoli
- ch) Cyfraniad tuag at 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
- dd) Effaith y prosiect
- e) Targedau a chyllideb y prosiect

PA DDOGFENNAU SYDD ANGEN I MI EU DARPARU?

Bydd y cais yn gofyn i chi gyflwyno dogfennau ar-lein ar ffurf PDF wedi'i sganio.

Bydd angen i chi gyflwyno dogfennau sy'n benodol i'ch mudiad, ond os nad oes gan eich mudiad fersiynau terfynol o unrhyw un o'r

polisiau ar hyn o bryd, gallwch gysylltu â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol am gymorth ([gellir dod o hyd i'r cyfeiriadur yma](#)). Mae'n bosibl na fydd yn gwneud eich cais yn anghymwys, ond byddem yn disgwyl gweld bod polisiau'n cael eu datblygu cyn y dyfarniad:

- Polisi Gwirfoddoli ([gweler enghraifft o Bolisi Gwirfoddoli Enghreifftiol](#))
- Dogfen lywodraethu
- Polisi Cyfle Cyfartal
- Polisi Amgylcheddol
- Polisi Iaith Gymraeg
- Polisi Diogelu Data (sy'n dangos cydymffurfiad â'r GDPR) – gweler y canllawiau: <https://thirdsectorsupport.wales/resources/data-protection-gdpr/>
- Polisi Diogelu (rhaid i bolisiau diogelu fod yn addas i'r diben. Os gwelir yn ystod adolygiad bod angen gwneud diweddariadau/diwygiadau, byddwch chi'n cael gwybod. **Ni fydd unrhyw gais yn cael ei argymhell i'r panel heb bolisi Diogelu digonol**) gweler y canllawiau: <https://thirdsectorsupport.wales/cy/resources/polisi-diogelu-canllawiau/>
- Set ddiweddaraf o gyfrifon archwiliedig llawn
- Set ddiweddaraf o gyfrifon drafft (os yw'r cyfrifon archwiliedig yn hynach na 12 mis oed NEU gyfrifon rheoli (os yw'r cyfrifon archwiliedig yn hynach na 12 mis oed)
- Cyfrifon rhagolwg (ar gyfer mudiadau newydd nad ydynt wedi cyflwyno cyfrifon eto). Bydd hefyd angen i chi gyflwyno dogfennau sy'n ymwneud yn benodol â'r prosiect:

- Cynllun cynefino/hyfforddi gwirfoddolwyr
- Disgrifiadau rôl gwirfoddolwyr
- Proffil prosiect (gan gynnwys targedau a chyllideb) (bydd angen cwblhau hen ar dempled gorfodol CGGC)

COFRESTRU GYDA MAP

Er mwyn gwneud cais am Brif Grant Gwirfoddoli Cymru, bydd angen i chi gofrestru gyda Phorth Ymgeisio Aml-ddiben CGGC (MAP). Os ydych wedi cofrestru gyda MAP o'r blaen, gallwch fewngofnodi drwy nodi eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair ar y dudalen hafan.

Gall mudiadau gofrestru trwy fynd i'r wefan: map.wcva.cymru

Unwaith byddwch wedi cofrestru gyda MAP, byddwch yn gallu ymgeisio am unrhyw gyfleoedd cyllido a weinyddir gan CGGC.

TALU GRANTIAU

Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo i gael grant yn derbyn 45% o flwyddyn un fel taliad ymlaen llaw unwaith y bydd unrhyw amodau o'r dyfarniad wedi'u bodloni, gyda 45% arall o daliad blwyddyn un yn cael ei wneud ar ôl chwe mis o gyflenwi, a bydd y 10% sydd ar ôl o'r taliad yn cael ei dalu ar ddiwedd y prosiect. Os byddant yn llwyddo i gael eu cymeradwyo ar gyfer cyllid ym mlwyddyn dau ar ôl yr adolygiad o flwyddyn un, bydd yr un proffil talu yn cael ei ddefnyddio.

Bydd y taliadau'n cael eu gwneud i gyfrif banc y mudiadau. Ni fydd unrhyw daliadau grant yn cael eu talu i gyfrif banc unigolyn.

Yn dilyn adroddiadau interim, os credir bod prosiect yn tangyflawni'n

sylweddol yn erbyn y targedau, gall taliadau gael eu cadw'n ôl hyd nes y bydd camau wedi'u cymryd i leihau'r effaith ar gyflawniad cyffredinol y prosiect. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall dyfarniadau grant gael eu tynnu'n ôl a gellir diwedd prosiectau'n gynnar.

Bydd adroddiadau interim yn cael eu cyflwyno ar ôl 6 mis a phan gaiff y prosiect ei gwblhau, ond gellir trefnu mwy o fonitro os yw'r mudiad yn cael anhawster bodloni gofynion y dyfarniad. Bydd rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth/tystiolaeth sydd ei hangen yn ystod yr ymweliadau hyn yn cael ei darparu mewn Canllaw Rheoli Prosiect pan fydd y grant yn cael ei dyfarnu.

DYDDIADAU PWYSIG

Dyddiad lansio: 03 Medi 2022

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 13 Ionawr 2023

Canlyniad y cais am grant: Mawrth 2023

Dechrau prosiectau: 01 Ebrill 2023

Dyddiad gorffen y prosiect: 31 Mawrth 2025 (bydd hyn yn dibynnu ar adolygiad blwyddyn un llwyddiannus). Ni fydd unrhyw brosiect yn cael dyfarniad am fwy na 2 mlynedd.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

Os nad ydych chi'n aelod o'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol ar hyn o bryd, gellir dod o hyd i restr o bob Cyngor Gwirfoddol Sirol [yma](#).

- [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – tudalen wybodaeth CGGC](#)

- [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – tudalen y Comisiynydd](#)
- [Polisi Gwirfoddoli: Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau \(Llywodraeth Cymru, 2015\)](#)
- [Ffyniant i bawb – y strategaeth genedlaethol \(Llywodraeth Cymru, 2017\)](#)
- [Gweithio gyda gwirfoddolwyr- Adnoddau a gwybodaeth](#)